

Crisis

# Gallwn ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru

## Maniffesto Etholiad 2026

# Amdanom ni

Crisis yw'r elusen genedlaethol sydd wedi ymrwymo i ddod â digartrefedd i ben.

Rydyn ni'n cefnogi pobl o ddigartrefedd yn uniongyrchol, gan gynnwys drwy ein gwasanaeth Skylight, sydd wedi'i leoli yn Abertawe.

Yn ogystal, rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid ledled Prydain i nodi ac i rannu arferion da.

Rydyn ni'n ymchwilio ac yn ymgyrchu dros y newidiadau cymdeithasol sydd eu hangen i ddatrys digartrefedd yn llwyr.

## Diagrtrefedd yng Nghymru

Y llynedd, profodd dros 13,000 o aelwydydd yng Nghymru ddigartrefedd.[1]

Heb gamau beiddgar, bydd digartrefedd yng Nghymru yn cynyddu 24% erbyn 2041.[2]

Ond does dim rhaid i bethau fod fel hyn...

## Gyda chamau beiddgar, gallwn ddod â digartrefedd i ben

Mae ein hymchwil yn dangos, gyda newid polisi beiddgar, y gallwn ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru.

Yn ystod tymor presennol y Senedd, rydyn ni wedi gweld gwleidyddion o bob plaid yn dod at ei gilydd i gefnogi camau allweddol o fewn y cynllun cenedlaethol i ddod â digartrefedd i ben. Mae rhywfaint o sylfeini da wedi'u gosod, ond rhaid i ni adeiladu ar y gwaith hwn a gwthio camau beiddgar i ddod â digartrefedd i ben.

Wrth i'r argyfwng costau byw barhau a nifer y digartref yn parhau'n uchel, ni allwn eistedd yn llonydd. Dyna pam rydyn ni'n gofyn i Lywodraeth nesaf Cymru greu strategaeth newydd i ddod â digartrefedd i ben, drwy ymrwymo i'r canlynol:

1. Cydweithio i **atal digartrefedd** rhag digwydd yn y lle cyntaf
2. Sicrhau bod pobl sy'n wynebu digartrefedd yn cael y **cymorth** sydd ei angen arnyn nhw
3. Buddsoddi mewn mwy o **gartrefi sy'n wirioneddol fforddiadwy** a'u darparu, yn enwedig cartrefi cymdeithasol.

1 Digartrefedd: Ebrill 2024 i Fawrth 2025 [HTML] | GOV.WALES

2 Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2025 | Crisis | Gyda'n gilydd gallwn ddod â digartrefedd i ben



## Rhagair

### Matt Downie MBE
### Prif Weithredwr, Crisis

Mae'n drasig ar hyn o bryd yng Nghymru fod miloedd o bobl yn wynebu digartrefedd. Heb le sefydlog i'w alw'n gartref, gall fod yn anodd aros yn iach, gweithio, astudio, a hyd yn oed cynnal perthnasoedd. Mae digartrefedd yn effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau.

Ac eto, gyda'r argyfwng costau byw yn parhau a rhenti'n codi ar draws Cymru, mae nifer o bobl yn cael eu gwthio at y dibyn.

Mae dros 12,000 o bobl ledled Cymru yn wynebu'r mathau gwaethaf o ddigartrefedd[3] – cysgu ar soffas a symud rhwng tai ffrindiau, byw mewn llety dros dro am fisoedd ar y tro neu gysgu mewn ceir, pebyll neu ar y strydoedd.

Mae ein hymchwil yn dweud wrthym, heb gamau beiddgar, bydd digartrefedd yng Nghymru yn cynyddu 24% erbyn 2041.[4]

**Ond does dim rhaid i bethau fod fel hyn. Drwy gydweithio, gallwn lywio Cymru ar y ffordd i ddod â digartrefedd i ben.**

Gallwn edrych tuag at Gymru lle mae pobl sy'n profi digartrefedd yn cael eu symud i gartref diogel cyn gynted â phosib ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw, fel y gall pobl ail-adeiladu eu bywydau a symud y tu hwnt i ddigartrefedd.

Drwy gydol tymor presennol y Senedd, mae wedi bod yn galonogol gweld gwleidyddion o bob plaid yn cydweithio i osod y sylfeini ar gyfer cyfraith newydd ar ddigartrefedd. Mae'n gyfraith, os caiff ei phasio, a fydd yn drawsnewidiol ac yn pennu'r cyfeiriad o ran sut rydyn ni'n atal digartrefedd ac i wella cymorth digartrefedd.

Rydyn ni hefyd wedi gweld cynghorau ledled Cymru yn gweithio'n galed ar gynlluniau i edrych ar sut gallwn ddechrau symud o aros am gyfnodau hir mewn llety costus dros dro – gydag enghreifftiau o arferion arloesol yn dod i'r amlwg.

Ac rydyn ni wedi gweld y sector yn dod at ei gilydd i edrych ar sut gellir goresgyn rhwystrau i adeiladu cartrefi mwy fforddiadwy.

Ond nid dyna ddiwedd y ffordd. Mae llawer o waith ar ôl i'w wneud. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gyflwyno a chefnogi gweithredu newidiadau i'r gyfraith. Rhaid iddi dyfu ac esblygu arferion da a symud tuag at ffyrdd newydd o weithio. A rhaid iddi fuddsoddi mewn creu'r cartrefi cymdeithasol y mae dirfawr eu hangen.

Wrth i gostau dynol a chyhoeddus digartrefedd gynyddu ledled Cymru, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru – a phob gwleidydd – yn canolbwyntio ar y sylfaeni hyn yn ystod tymor nesaf y Senedd ac yn cyflymu ein siwrnai i ddod â digartrefedd i ben gyda'n gilydd.





**Matt Downie MBE**
Prif Weithredwr, Crisis

3 Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2025 | Crisis | Gyda'n gilydd gallwn ddod â digartrefedd i ben

4 Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2025 | Crisis | Gyda'n gilydd gallwn ddod â digartrefedd i ben



# Rhagair

## Archie, ein Harbenigwr o Brofiad

Nid mater o golli to yw digartrefedd. Mae'n ymwneud â dwyn dynoliaeth, urddas a gobaith. Heb gartref, daw bywyd yn fater o oroesi, mae'r dyddiau'n fyr ac yn aflonydd, a'r nosweithiau'n troi'n hir ac yn ofidus. Daw llawr oer yn gartref. Daw llety dros dro yn rhith yn yr anialwch rydyn ni'n ei alw'n fywyd, cysur ar yr olwg gyntaf, ond mewn gwirionedd, trap sy'n dyfnhau'r trawma.

Gall digartrefedd deimlo fel absenoldeb yr hunan, absenoldeb urddas, ac absenoldeb yr ymdeimlad o berthyn. Cael eich amlygu i gyflwr amrwd y byd hwn, cael eich amddifadu o ddynoliaeth, a chael eich gweld fel rhif yn unig.

Rydw i'n gwybod hyn oherwydd fy mod i wedi byw drwyddo. Dyw digartrefedd a chaethiwed ddim yn gwahaniaethu. Yn fy mhrofiad i, mae byw drwy ddigartrefedd yn golygu cael eich trosglwyddo o un system i'r llall, i gael rhifau ffôn yn lle gofal, ac i fanciau bwyd droi'n ail geginau, i gael ein gweld fel rhif a'n rheoli fel problem ac wynebu rhagfarn.

Ond pan roddwyd cartref i fi, blodeuodd rhosyn o'r concrid, ac roeddwn i'n gallu ail-adeiladu, gwella, ac adnewyddu'r dyfodol; dod o hyd i sobrwydd drwy'r tawelwch sy'n deillio o sefydlogrwydd cael cartref. Nid lloches yn unig yw cartref ond sylfaen. Adeg ysgrifennu hwn, rydw i'n sobor ers dwy flynedd a saith mis.

Gellir dod â digartrefedd i ben. Gallwn ddod ag ef i ben drwy gydnabod tai fel hawl dynol, nid braint, a thrwy chwalu rhwystrau yn y system, fel nad yw pobl yn cael eu gadael i syrthio drwy'r craciau. I sicrhau bod gan bawb nid yn unig do, ond lle i berthyn, i gael system sy'n gweithio, ac i beidio â neilltuo pobl fel rhifau ac ystadegau.

Mae digartrefedd yn arw, ond nid yw'n anochel. Ni ddylem byth roi'r gorau i gredu fel arall. Rhaid i ni sicrhau bod Llywodraeth nesaf Cymru yn ymrwymo i atal digartrefedd a dilyn y delfrydau sydd yn y maniffesto hwn.

**Mae digartrefedd yn arw, ond nid yw'n anochel. Ni ddylem byth roi'r gorau i gredu fel arall.**




## Crynodeb

Mae ein hymchwil yn dangos, gyda'r newid polisi a'r ymgyrch iawn, y gallwn newid cyfeiriad o ran digartrefedd yng Nghymru.

I wneud hyn, bydd angen i Aelodau o'r Senedd sydd newydd eu hethol, o bob plaid, i flaenoriaethu dod â digartrefedd i ben. **Ac mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru wneud ymrwymiad i ddod â digartrefedd i ben, gan greu strategaeth sy'n canolbwyntio ar y cerrig milltir canlynol:**

### 1. Cydweithio i atal digartrefedd rhag digwydd yn y lle cyntaf

Drwy gydweithio, gallwn ni ffrwyno'r niferoedd cynyddol ohonom sy'n byw heb le sefydlog i'w alw'n gartref. Gallwn atal pobl rhag gorfod byw drwy drawma digartrefedd.

### 2. Sicrhau bod pobl sy'n wynebu digartrefedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw

Drwy sicrhau bod ein systemau wedi'u strwythuro a'u hariannu fel bod pob person sy'n profi digartrefedd yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw, gallwn ddod â digartrefedd i ben cyn gynted â phosib a'u hatal rhag cael eu gwthio tuag at ddigartrefedd eto yn y dyfodol.

### 3. Buddsoddi mewn mwy o gartrefi sy'n wirioneddol fforddiadwy a'u darparu, yn enwedig cartrefi cymdeithasol

Mae prinder difrifol o dai sy'n wirioneddol fforddiadwy ledled Cymru o hyd, yn enwedig ar gyfer rhent cymdeithasol. Mae darparu mwy o dai i gyd-fynd ag anghenion pobl sy'n profi digartrefedd yn hanfodol.



## 1. Cydweithio i atal digartrefedd rhag digwydd yn y lle cyntaf

Gall digartrefedd rwygo bywydau pobl yn ddarnau. Gall fod yn beryglus ac yn heriol yn emosiynol.

Rydyn ni'n gwybod bod pobl sy'n profi digartrefedd yn wynebu risgiau cynyddol i'w hiechyd corfforol a meddyliol. Yn wir, mae adroddiadau'n dangos mai oedran cyfartalog marwolaeth pobl sy'n profi digartrefedd yw 45 oed i ddynion a 43 oed i fenywod.[5]

Yn ein gwasanaethau ein hunain yma yn Crisis, rydyn ni hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n wynebu digartrefedd sydd, o ystyried y pwysau maen nhw'n eu hwynebu, yn profi teimladau o hunanladdiad. Bob dydd, rydyn ni'n gweld digartrefedd yn gadael ei ôl ar berthnasoedd, hyder, addysg a chyflogaeth pobl. Mae cost ddynol digartrefedd yn anfesuradwy.

Mae lefel cynyddol digartrefedd hefyd yn effeithio ar ein gwasanaethau cyhoeddus. Mae ymchwil a gyhoeddwyd gan Crisis a Phrifysgol Heriot-Watt yn gynharach eleni yn dangos gwasanaethau tai ar draws y wlad yn disgrifio eu hunain fel "delio â phroblemau pan fyddant wedi troi'n argyfyngau".[6]

Ni allwn fforddio parhau fel hyn. Rhaid i ni symud y tu hwnt i ddelio â phroblemau pan fyddant wedi troi'n argyfyngau ac atal problemau cyn iddynt ddigwydd. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i atal pobl rhag byw drwy drawma digartrefedd.

Ar ôl ei basio, bydd y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol, sydd ar y gweill, yn helpu i sicrhau y gall pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref gael cymorth yn llawer cynharach a bod gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn chwarae eu rhan wrth atal digartrefedd.

Ond mae angen mwy o waith caled yn ystod tymor nesaf y Senedd i roi'r newidiadau hyn ar waith a gwireddu hyn. Mae digartrefedd a'i achosion yn aml yn ymestyn y tu hwnt i wasanaethau tai. Drwy gydweithio, ar draws ein gwasanaethau iechyd, cymdeithasol, addysg, canolfannau gwaith a gwasanaethau allweddol eraill - gall cydweithio gael effaith enfawr. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn buddsoddi yn yr adnoddau, yr hyfforddiant a'r systemau i gefnogi'r ffordd hon o weithio, oherwydd mae'r manteision yn enfawr i bawb.

**"Mae cyfraddau llwyddiant awdurdodau lleol ledled Cymru ar gyfer atal digartrefedd wedi lleihau 16% ers 2017/18. Rhaid i ni wneud mwy i atal pobl rhag profi trawma digartrefedd."**

5 Marwolaethau pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr – Swyddfa Ystadegau Gwladol

6 Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2025 | Crisis | Gyda'n gilydd gallwn ddod â digartrefedd i ben



## 2. Sicrhau bod pobl sy'n wynebu digartrefedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw

Yn rhy aml, gall pobl sy'n wynebu digartrefedd gael eu cloi allan o gymorth, neu gael trafferth llywio'r union systemau sydd i fod i'w helpu.[7]

Gall y gyfraith ddigartrefedd bresennol gyfyngu ar y cymorth y gall pobl ei gael oherwydd pwy ydyn nhw. Er enghraifft, o dan y systemau presennol, gall pobl sengl ei chael hi'n anodd cael mynediad at gartrefi. Yn aml, mae'n methu â diwallu anghenion unigol pobl a gall adael pobl yn cael eu gwthio allan heb unman i droi pan fyddan nhw'n ei chael hi'n anodd llywio gwasanaethau a chymorth.

Yn aml, mae pobl sy'n profi digartrefedd yn wynebu heriau a rhwystrau niferus.

Os ydyn ni am ddod â digartrefedd i ben go iawn, mae angen newid radical arnom ni. Ochr yn ochr ag atal, rhaid i 'ailgartrefu cyflym' fod yn gonglfaen i unrhyw strategaeth i ddod â digartrefedd i ben. Mae ailgartrefu cyflym yn golygu gweithredu'n gynnar i ailgartrefu pobl yn gyflym, cyn gynted ag y byddan nhw'n ddigartref. Mae hefyd yn golygu rhoi'r adnoddau cymorth sydd eu hangen ar aelwydydd i gynnal eu llety, fel nad ydyn nhw'n dod yn ddigartref eto.

Mae angen systemau arnom ni – a chyflenwad tai – sy'n cydnabod pwysigrwydd symud i gartref sefydlog a diogel cyn gynted â phosib ac i feithrin cymorth o amgylch pobl. Gall hyn fod yn gymorth ariannol, neu'n gymorth sy'n canolbwyntio mwy ar y person sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant.

Yn ystod tymor presennol y Senedd, mae gwleidyddion o bob plaid yn edrych ar newidiadau allweddol i ddeddfwriaeth ddigartrefedd er mwyn gwella cymorth. Ond rhaid i'r gwaith barhau yn y tymor newydd i wireddu newidiadau o'r fath.

Mae'n rhaid i ni fwrw ymlaen â rhoi newidiadau i systemau digartrefedd ar waith a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu hariannu a'u cefnogi'n ddigonol i gyflawni newid ystyrlon, fel nad oes neb yn cael ei wrthod rhag cael cymorth a bod pobl yn cael eu symud i gartref eu hunain yn gyflym. Oherwydd, yn y pen draw, mae bywydau'n dibynnu arno.

7 [Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru-adolygiad-deddfwriaethol.pdf]



## 3. Buddsoddi mewn mwy o gartrefi sefydlog fforddiadwy a'u darparu

Mae gennym ddiffyg difrifol o gartrefi sy'n wirioneddol fforddiadwy ledled Cymru.[8] Mae hon yn broblem gyffredin gyda 86%[9] o'r cyhoedd a holwyd yng Nghymru yn tynnu sylw at yr angen am dai mwy fforddiadwy fel mater o bryder.

Yma yn Crisis, rydyn ni'n aml yn gweld pobl sydd wedi'u caethiwo yn byw mewn llety dros dro am fisoedd ar y tro, yn byw mewn limbo heb fynediad at gyfleusterau sylfaenol fel coginio a golchi dillad. Mewn llawer o achosion, mae pobl yn byw o dan gyfyngiadau cyrffyw, lle gofynnir iddyn nhw adael llety yn ystod y dydd, a hyd yn oed yn byw gyda'r ansicrwydd ble byddan nhw'n cysgu o un noson i'r llall.

Mae ein haelodau yn dweud wrthym fod byw fel hyn fel delio â phroblemau dim ond er mwyn goroesi – gall wneud bywyd bob dydd yn anodd a chreu rhwystrau sylweddol i gadw swydd neu feithrin perthynas.

Mae sicrhau y gellir symud pobl sy'n wynebu digartrefedd i gartref cyn gynted â phosib yn hanfodol. Mae cartref sefydlog yn rhoi sylfaen y gallwn adeiladu ein bywydau arni. Yn anffodus, mae ystadegau'n dangos bod nifer y bobl sy'n symud i lety dros dro bob mis yn fwy na'r rhai sy'n symud i gartrefi sefydlog yn gyson.[10]

Dywedodd cynghorau a arolygwyd fel rhan o'n Monitor Digartrefedd a gyhoeddwyd yn gynharach eleni mai rhwystr allweddol i ddod â digartrefedd i ben yw diffyg tai fforddiadwy i ddiwallu'r angen, yn enwedig diffyg eiddo un ystafell wely.[11]

Rydyn ni'n gwybod bod yna arferion da ledled Cymru i hybu'r cyflenwad tai, ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd i hyrwyddo ac ymestyn arferion o'r fath, ac i gefnogi cynghorau i alinio cynllunio cyflenwadau gydag anghenion tai gyda'r nod o ddod â digartrefedd i ben.

Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth nesaf Cymru yn bwrw ati i fuddsoddi mewn cartrefi i gyd-fynd ag anghenion pobl sy'n profi digartrefedd. Mae hyn yn golygu buddsoddi mewn cartrefi rhent cymdeithasol a sicrhau bod y sector rhent preifat yn addas at y diben.

**"Mae'n anodd iawn rheoli eich dyfodol ac ailadeiladu pan na allwch chi reoli'r presennol.**

**Ro'n i'n sownd ac yn delio â phroblemau dim ond er mwyn goroesi. Roedd fy mhen yn llawn pryder am sut ro'n i'n mynd i wneud arian, o ble fyddai'r pryd nesaf yn dod. Pryd fydda i'n cael fy mhlant yn ôl yn iawn yn lle munudau yma ac acw. Roedd yn ormod dechrau meddwl am fwy.**

**Ond unwaith ges i le sefydlog i'w alw'n gartref, newidiodd popeth. Ro'n i'n dawelach fy meddwl ac ro'n i'n gallu symud y tu hwnt i ddelio â phroblemau dim ond er mwyn goroesi a dechrau trefnu dod o hyd i reolaeth dros bethau hyd yn oed os mai camau bach oedden nhw."**

Declan – Arbenigwr drwy Brofiad

8 [Tai fforddiadwy | Archwilio Cymru]

9 O arolwg a gynhaliwyd gan NFP ar ran Crisis yn 2024, ar sail sampl o 1,020 o drigolion dros 16 oed yng Nghymru.

10 [Digartrefedd: Ebrill 2024 i Fawrth 2025 [HTML] | GOV.WALES]

11 [Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2025 | Crisis | Gyda'n gilydd gallwn ddod â digartrefedd i ben]

## Casgliadau

**Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn anodd. Mae digartrefedd wedi bod ar gynnydd ac nid oes modd rheoli rhestrau aros am dai cymdeithasol ar draws y wlad.**

Ond does dim rhaid i bethau fod fel hyn. Rydyn ni'n gwybod beth yw'r camau a fydd yn ein tywys tuag at Gymru heb ddigartrefedd.

Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru ac Aelodau etholedig o'r Senedd o bob plaid i ymrwymo i gydweithio ar y camau hyn, oherwydd, yn syml iawn, ni allwn fforddio peidio â gwneud hynny.

**Gallwn ni ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru ac mae'n rhaid i ni wneud hynny.**

**Rhaid i ni ffrwyno digartrefedd er mwyn atal mwy o bobl rhag byw drwyddo.**

**Rhaid i ni ddod â'r trawma i ben sy'n wynebu miloedd o bobl ledled Cymru bob dydd.**

**Rhaid i ni weld ein gwasanaethau digartrefedd yn symud y tu hwnt i ddelio â phroblemau pan fyddant wedi troi'n argyfyngau.**

**Rhaid i ni sicrhau bod gan bawb le diogel i'w alw'n gartref.**



**Crisis Cymru**
163 St Helen's Road
Abertawe, SA1 4DQ
Ffôn: 01792 674900

www.crisis.org.uk

Hawlfraint Crisis 2025

Crisis UK (yn masnachu fel Crisis)
Rhifau Cofrestru'r Elusen:
E&W1082947, SC040094
Rhif y Cwmni: 4024938